Adroddiad ar gyfer

**Little Inspirations - Flying Start Penywaun**

**Little Inspirations - Flying Start Penywaun**
**Coed Glas**
**Penywaun**
**Aberdâr**
**Rhondda Cynon Taf**
**CF44 9DR**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2024**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**ac**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Little Inspirations - Flying Start Penywaun

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Little Inspirations - Flying Start Penywaun |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n gymwys) | Jenine Gill |
| Person â chyfrifoldeb | Hannah Toland |
| Nifer y lleoedd | 30 |
| Ystod oedran y plant | 18 mis hyd at 8 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 oed | 6 |
| Nifer y plant sy'n cael cyllid ar gyfer addysg gynnar | 6 |
| Diwrnodau / amseroedd gweithredu | 8am i 6pm o ddydd Llun i ddydd Gwener |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Ydy |
| Iaith y lleoliad | Saesneg |
| A yw'r lleoliad hwn yn darparu'r Cynnig Gofal Plant? | Ydy |
| Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth nac yn bwriadu gwneud hynny. Argymhellwn y dylai darparwr y gwasanaeth ystyried canllawiau strategol olynol 'Mwy na Geiriau' Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg mewn gofal cymdeithasol. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 14 Mawrth 2023 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Nid oes adroddiad blaenorol gan Estyn |
| Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn | 06/02/2024 |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Llesiant** | **Rhagorol** |
| **Dysgu**<br>**(dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Rhagorol** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol)** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Achosion o ddiffyg cydymffurfio

**Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.**

## Argymhellion

A1 Datblygu'r gweithdrefnau cynllunio, asesu ac arsylwi ymhellach er mwyn sicrhau eu bod yn canolbwyntio'n agosach ar gynnydd y plant ar draws yr holl lwybrau datblygiadol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y mae'n bwriadu ymdrin â'r argymhellion.

Bydd AGC ac Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ar ei waith mewn perthynas â sut mae'n llwyddo i gadw ymarferwyr, i'w chyhoeddi ar eu gwefannau.

## Prif ganfyddiadau

**Llesiant: Rhagorol**

Mae gan y plant lais cryf, ac maent yn gwneud llawer o benderfyniadau mewn perthynas â'u chwarae. Mae bron bob un o'r plant yn dewis gweithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt ac yn symud yn hyderus o un gweithgaredd i'r llall. Maent yn dewis adnoddau yn annibynnol gan eu bod yn gallu cael gafael arnynt yn hawdd. Mae llawer o'r plant yn siarad neu'n mynegi eu hunain yn dda iawn ac yn gwybod y bydd yr ymarferwyr yn ystyried eu dymuniadau. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn gofyn i'r plant a hoffent wneud smwddis a gallent ddewis pa ffrwythau roeddent am eu cynnwys.

Mae bron bob un o'r plant yn hapus, yn gyfforddus ac yn gallu ymlacio yng nghwmni'r ymarferwyr. Maent yn mynd i mewn i'r lleoliad yn hapus ac yn setlo i'r drefn gyfarwydd yn dda iawn. Mae'r plant yn meithrin cysylltiadau cadarnhaol â'u gweithwyr allweddol ac mae ganddynt gydberthnasau da iawn. Mae bron bob un o'r plant yn fodlon ac yn mynegi eu mwynhad drwy wenu a chwerthin. Er enghraifft, mae'r plant yn dechrau canu '*there is a worm at the bottom of the garden*', pan fydd plentyn yn cymryd diddordeb mewn mwydyn yn yr ardal awyr agored. Mae bron bob un o'r plant yn falch o'u cyflawniadau ac yn ymateb yn dda iawn i ganmoliaeth gan yr ymarferwyr. Er enghraifft, mae'r plant yn dangos yr hyn y maent wedi ei greu o does chwarae a'u gwaith celf ac yn gwenu'n braf pan fyddant yn llwyddo i wisgo eu côt. Mae'r plant yn

codi eu llaw yn eiddgar i gael 'pawen lawen' gan yr ymarferwyr wrth iddynt gwblhau tasg.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn llwyddo i ddysgu sut i reoli eu hymddygiad. Maent yn datblygu dealltwriaeth o da a drwg, ac mae'r rhan fwyaf yn dysgu i rannu adnoddau a chymryd eu tro yn dda. Er enghraifft, cytunodd un plentyn a oedd yn mwynhau chwythu swigod y byddai'n rhoi cyfle i blentyn arall, gan aros yn briodol i gael rhoi cynnig arall arni. Mae'r plant yn fwy na pharod i rannu'r gofod o'u cwmpas ag eraill wrth iddynt adeiladu â blociau yn yr ardal awyr agored. Mae llawer ohonynt yn meithrin cydberthnasau ystyrlon â'r ymarferwyr a'u cyfoedion. Maent yn cyd-chwarae'n dda wrth iddynt roi rhwymyn ar ben a braich un o'r ymarferwyr yn dyner, gan ofyn i'r ymarferydd ble y mae wedi brifo ei hun. Mae bron bob un o'r plant yn dysgu moesau da, maent yn gwrtais ac yn dweud 'os gwelwch yn dda' a 'diolch' yn ddigymell. Maent yn ymateb yn gadarnhaol ac yn brydlon i geisiadau gan yr ymarferwyr i fynd ati i olchi eu dwylo ac i dacluso fel rhan o drefn y sesiwn.

Mae gan bron bob un o'r plant ddiddordeb mewn gweithgareddau ac maent yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu. Maent yn ymgysylltu mewn amrywiaeth dda iawn o weithgareddau, ac maent yn dyfalbarhau wrth gwblhau tasgau, er enghraifft golchi a sychu'r teganau anifeiliaid yn yr hambwrdd dŵr a gwneud modelau â thoes a deunyddiau naturiol. Mae bron bob un o'r plant yn dysgu sgiliau hunangymorth da ac yn dod yn ddysgwyr annibynnol. Mae llawer ohonynt yn golchi eu dwylo'n annibynnol ac yn defnyddio'r toiledau gyda lefelau priodol o gymorth gan yr ymarferwyr. Mae bron bob un o'r plant yn cael cyfleoedd da i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth adegau byrbryd ac amseroedd bwyd. Er enghraifft, maent yn torri ffrwythau, yn arllwys eu diodydd eu hunain, ac yn rhoi bwyd na chafodd ei fwyta i'w ailgylchu. Mae llawer o'r plant yn llwyddo i ddysgu i wisgo eu cotiau eu hunain cyn mynd allan. Maent yn fwy na pharod i fynd at ymarferydd i gael cymorth i wisgo eu côt os bydd angen cymorth arnynt.

**Dysgu (dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol):**

Nid oes adroddiad ar ddysgu'r plant. Y rheswm dros hyn yw nad oedd digon o blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg a gyllidir yn rhywle arall yn bresennol ar adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb i blant unigol gael eu hadnabod.

**Gofal a datblygiad:  Rhagorol**

Mae'r ymarferwyr yn uchel iawn eu cymhelliant ac yn rhoi blaenoriaeth uchel iawn ar iechyd a diogelwch y plant. Mae gan bob ymarferydd gymhwyster gofal plant ac maent yn cael digon o gyfleoedd i ymgymryd â hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rôl. Mae pob un ohonynt wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar ddiogelu, hylendid bwyd a chymorth cyntaf pediatrig. Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth ragorol o'r polisïau ac maent yn eu rhoi ar waith yn dda. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder. Mae'r ymarferwyr yn cofnodi damweiniau, digwyddiadau ac anafiadau sy'n bodoli eisoes yn dda, ac yn rhannu'r wybodaeth hon yn brydlon â'r rhieni. Maent yn gweithio'n unol â'r amrywiaeth eang o asesiadau risg trylwyr ac yn nodi risgiau sy'n dod i'r amlwg yn effeithiol. Mae'r

ymarferwyr yn annog y plant i ddeall a meithrin arferion ffordd o fyw iachus, gan hyrwyddo dewis o fwyd iachus yn ystod amseroedd bwyd a sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd chwarae awyr agored bob dydd er mwyn gwneud ymarfer corff a chael awyr iach.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i addasu strategaethau rheoli ymddygiad er mwyn rheoli eu hymddygiad. Maent yn ddigynnwrf ac yn amyneddgar, ac yn defnyddio iaith a mynegiant wyneb cadarnhaol ar bob cyfle, gan hefyd fod yn gadarn pan fo angen hynny. Mae'r ymarferwyr yn fagwrus ac yn meithrin cydberthnasau cynnes ac anogol â'r plant. Maent yn cefnogi'r plant yn dyner i ddatrys anghytundebau ac i ddangos caredigrwydd a pharch at ei gilydd. Mae'r ymarferwyr yn fedrus wrth addysgu'r plant i rannu, drwy ddarparu cyfleoedd iddynt chwarae mewn grwpiau bach er mwyn ymarfer hyn. Er enghraifft, aethant â dau o'r plant i ardal dawel i chwarae â cheir gan ddangos iddynt sut mae rhannu a chymryd tro yn eu helpu i fwynhau'r gweithgaredd yn well.

Mae'r ymarferwyr yn helpu'r plant i ddysgu a datblygu yn effeithiol. Maent yn rhoi systemau da ar waith i nodi a chefnogi plant ag unrhyw anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae'r ymarferwyr yn wybodus iawn am anghenion unigol y plant ac yn gweithio'n agos gyda'r rhieni a gweithwyr proffesiynol allweddol er mwyn sicrhau bod cymorth priodol ar waith. Maent yn asesu'r plant, yn arsylwi arnynt, yn eu monitro ac yn gwerthuso eu cynnydd yn dda, er mwyn helpu'r plant i gyrraedd eu potensial. Mae'r ymarferwyr yn meddu ar ddealltwriaeth arbennig o dda o anghenion unigol y plant ac yn ei defnyddio i gynllunio gweithgareddau sy'n seiliedig ar eu diddordebau. Er enghraifft, sylwodd un o'r ymarferwyr fod plentyn wedi dangos diddordeb mewn mwydyn wrth chwarae yn yr awyr agored a chynlluniodd weithgareddau ar gyfer y diwrnod canlynol yn seiliedig ar y diddordeb hwnnw. Mae'r ymarferwyr yn dangos amynedd wrth annog y plant i gymryd rhan mewn gweithgareddau ac i feithrin sgiliau ac arferion dysgu da, fel canolbwyntio a dyfalbarhau.

**Addysgu ac asesu (dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol): Da**

Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o ddatblygiad plant a phwysigrwydd chwarae i ddatblygu sgiliau cymdeithasol a llesiant y plant. Maent yn darparu amgylchedd dysgu digynnwrf a diddorol i'r plant chwarae a dysgu. Mae'r ymarferwyr wedi croesawu'r cwricwlwm ar gyfer lleoliadau nas cynhelir a'r llwybrau datblygiadol. Maent yn cynllunio gweithgareddau cyffrous i'r plant brofi ac archwilio, sy'n eu helpu i fagu hyder wrth archwilio eu hamgylchedd.

Mae'r ymarferwyr yn rhoi ystyriaeth dda i safbwyntiau a barn y plant o ran yr hyn yr hoffent ei chwarae a ble yr hoffent chwarae. Maent yn ymwybodol o ddiddordebau'r plant a'r hyn sy'n ennyn eu chwilfrydedd, ac yn ystyried hynny'n effeithiol fel rhan o'r gweithgareddau a ddarperir, er enghraifft gan ychwanegu anifeiliaid i'w golchi i'r hambwrdd dŵr yn dilyn cais y plant. Maent yn rhoi cyfleoedd i'r plant chwarae am gyfnodau hir heb darfu arnynt ac yn rhoi cyfleoedd buddiol iddynt ddychwelyd at y gweithgareddau sy'n eu diddori. Mae hyn yn rhoi amser i'r plant ddyfnhau eu dysgu

ac archwilio'r meysydd sy'n ennyn eu chwilfrydedd ymhellach. Mae'r ymarferwyr yn fedrus wrth wybod pryd i ymyrryd a phryd i arsylwi ar y plant yn chwarae.

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio asesiadau ac arsylwadau yn briodol er mwyn helpu i gynllunio profiadau ar gyfer y plant yn y dyfodol. Maent yn defnyddio asesiadau o ddatblygiad lleferydd ac iaith y plant mewn ffordd arbennig o dda i gynllunio gweithgareddau a dysgu ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn gwneud defnydd effeithiol o arsylwadau i'w helpu i gynllunio ac addysgu'r camau nesaf o ran gwybodaeth, dealltwriaeth a datblygiad sgiliau'r plant ar draws pob llwybr datblygiadol.

Mae'r ymarferwyr yn fodelau rôl iaith effeithiol ac maent yn cyflwyno geirfa newydd i'r plant wrth iddynt chwarae ac ymgymryd â gweithgareddau, er enghraifft wrth enwi ffrwythau er mwyn gwneud smwddis ffrwythau iachus. Maent yn defnyddio cwestiynau sy'n annog y plant i feddwl ac yn eu helpu i ddatblygu eu sgiliau cyfathrebu. Er enghraifft, maent yn annog y plant i ystyried pa adnoddau y byddai eu hangen arnynt yn ardal chwarae rôl y feddygfa i'w helpu i ymgymryd â'r amrywiol rolau. Mae'r ymarferwyr yn cynnig amrywiaeth dda o brofiadau gwerth chweil er mwyn helpu'r plant i ddatblygu eu sgiliau echddygol manwl a'u sgiliau gwneud marciau cynnar. Maent yn ymateb yn dda i ddiddordeb y plant mewn llyfrau a straeon ac yn darllen straeon cyfarwydd iddynt pan fyddant yn gofyn am hynny. Mae'r ymarferwyr yn darparu gweithgareddau ac adnoddau buddiol i'r plant ddatblygu eu sgiliau mathemategol a digidol cynnar yn yr ardaloedd dysgu. Yn yr ardaloedd hyn, mae'r ymarferwyr yn rhoi cyfleoedd i'r plant ddatrys problemau, trefnu a dosbarthu gwrthrychau a chwarae gemau paru lluniau.

Mae'r ymarferwyr yn modelu'r Gymraeg yn dda drwy gydol y sesiwn. Maent yn defnyddio cyfarchion a chyfarwyddiadau syml ac yn enwi lliwiau a siapiau. Maent yn helpu'r plant i feithrin ymwybyddiaeth o Gymru a diwylliant Cymru yn ogystal â'u hardal leol, er enghraifft drwy fynd am dro yn eu hardal leol a chymryd rhan mewn amrywiol ddigwyddiadau diwylliannol.

Mae'r ymarferwyr yn hybu datblygiad cymdeithasol, moesol, diwylliannol ac ysbrydol y plant yn dda. Maent yn cynnig cyfleoedd priodol i'r plant ddysgu am wyliau a diwylliannau o bob cwr o'r byd ac yn darparu adnoddau a llyfrau i ysgogi eu diddordeb. Maent hefyd yn gwneud defnydd da o ymwelwyr sy'n dod i'r lleoliad i gynnig amrywiaeth o brofiadau diwylliannol gwerth chweil i'r plant. Er enghraifft, mae sesiynau ioga a gweithgareddau drymio Affricanaidd yn helpu'r plant i ddatblygu chwilfrydedd am eu bywydau a'u credoau nhw eu hunain ac eraill.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd gwerth chweil i'r plant feithrin ymdeimlad o syfrdandod a rhyfeddod. Maent yn mynd am dro o amgylch yr ardal leol ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau garddio a thyfu yn ystod y misoedd cynhesach. O ganlyniad, mae'r plant yn dechrau deall effaith y tymhorau ar natur ac yn dysgu sut i ofalu am bethau byw.

Mae'r lleoliad yn gweithio'n dda gyda'r rhieni i gasglu gwybodaeth werthfawr am anghenion unigol y plant, eu hoff bethau a'u cas bethau cyn iddynt ddechrau yn y lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn hysbysu'r rhieni'n rheolaidd am gynnydd eu plentyn

drwy roi diweddariadau rheolaidd iddynt. Maent yn gwneud defnydd da o lwyfan ar-lein y lleoliad i ymgysylltu â'r rhieni ac i rannu gwybodaeth a lluniau o'r gweithgareddau y mae eu plentyn wedi cymryd rhan ynddynt yn ystod y dydd.

**Yr Amgylchedd: Da**

Mae gan yr arweinwyr systemau a gweithdrefnau effeithiol ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr da. Mae'r ymarferwyr yn rhoi'r gweithdrefnau hyn ar waith yn dda ac yn dangos ymwybyddiaeth dda iawn o'r gweithdrefnau diogelwch a hylendid. Mae'r arweinwyr yn cadw asesiadau risg clir, defnyddiol a chyfredol. Maent yn goruchwylio trefniadau cadarn sy'n sicrhau bod yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda a bod systemau fel cyfarpar tân a nwy yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd gan weithwyr proffesiynol. Mae'r arweinwyr yn monitro prosesau sy'n sicrhau bod pob ardal yn lân ac yn hylan, er enghraifft bwrw golwg dros yr ardal awyr agored cyn i'r plant fynd allan a glanhau ardaloedd cyn i'r plant eistedd i fwyta. Maent yn cynnal gwiriadau dyddiol/wythnosol o'r ardaloedd dan do a'r ardaloedd awyr agored ac yn monitro tymereddau ystafelloedd yn ofalus. Mae'r ymarferwyr yn cadw cofnodion sy'n dangos bod ardaloedd y gegin a'r ardaloed paratoi a storio bwyd yn ddiogel. Maent yn sicrhau bod y toiledau a'r cyfleusterau newid cewynnau yn addas, ac yn rhoi ystyriaeth dda i breifatrwydd ac urddas y plant. Mae'r ymarferwyr yn dilyn y polisi rheoli heintiau yn dda.

Mae'r arweinwyr yn creu amgylchedd sy'n olau, yn groesawgar ac yn addas i blant, ac sy'n cynnig awyrgylch cynnes a naturiol. Mae'r ymarferwyr yn arddangos gwaith a lluniau'r plant yn yr ystafell chwarae, gan roi ymdeimlad o berthyn i'r plant. Mae digon o le i'r plant chwarae a dysgu. Mae'r ymarferwyr yn gosod ardaloedd penodol er mwyn galluogi'r plant i ddewis adnoddau sydd o ddiddordeb iddynt ac i ymgymryd â gweithgareddau sy'n hyrwyddo eu datblygiad cyffredinol. Maent yn addasu ardal i'r plant fwyta ar adegau allweddol ac mae'r ymarferwyr yn darparu ardal addas i'r plant gysgu pan fydd angen iddynt gysgu. Mae'r ymarferwyr yn darparu amgylchedd pwrpasol, ac yn rhoi pwyslais cynyddol ar eitemau 'bywyd go iawn' er mwyn sbarduno dychymyg y plant ac adlewyrchu eitemau y byddant o bosibl yn eu hadnabod o gartref.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod digonedd o gyfarpar ac adnoddau o ansawdd uchel i ddiwallu anghenion y plant. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio adnoddau mewn ffordd llawn dychymyg ac yn newid ffocws rhai o'r ardaloedd yn rheolaidd er mwyn cynnal eu diddordeb. Er enghraifft, maent yn datblygu ardal ar ffurf meddygfa at ddibenion chwarae rôl, gan ddefnyddio adnoddau a gwybodaeth weledol sy'n gwneud iddi deimlo fel meddygfa go iawn ac sy'n apelio at y plant. Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd da o'r ardal awyr agored ym mhob tywydd, gan alluogi'r plant i ddefnyddio cyfarpar fel cyfarpar dringo lefel isel, pwll tywod, ardal adeiladu, ardal gwneud marciau a thai chwarae. Gall y plant gyrraedd yr ardal hon yn hawdd, ac mae'r trefniadau ar gyfer storio dillad tywydd gwlyb wrth y drws sy'n arwain at yr ardal yn helpu'r plant i wisgo eu hunain cyn mynd allan. Mae'r ymarferwyr yn rhoi llestri serameg a chyllyll, ffyrc a llwyau metel i'r plant yn ystod amseroedd bwyd er mwyn iddynt allu datblygu sgiliau i dorri a bwyta eu bwyd yn effeithiol.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol**

Mae'r arweinwyr yn datblygu ymdeimad cryf o weithio ar y cyd a gwaith tîm. Maent yn cefnogi ei gilydd yn llwyddiannus yn eu rolau ac o ran eu hiechyd a'u llesiant emosiynol. Mae'r datganiad o ddiben yn glir ac yn darparu darlun cywir o'r lleoliad, gan alluogi'r rhieni i wneud penderfyniadau hyddysg am addasrwydd y lleoliad ar gyfer eu plentyn. Mae'r arweinwyr yn nodi cryfderau'r lleoliad a'r meysydd i'w datblygu yn gywir drwy brosesau buddiol ar gyfer gwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth ac ar ganlyniadau'r plant.

Mae'r arweinwyr yn gweithio'n hynod effeithiol ag amrywiaeth o bartneriaid i nodi meysydd i'w gwella ac i flaenoriaethu cyllid yn briodol. Cânt eu cefnogi'n dda gan athrawon ymgynghorol y blynyddoedd cynnar a chânt gymorth ychwanegol gan dîm arwain ehangach. Yn ogystal, maent yn gweithio'n agos gyda rhwydwaith o feithrinfeydd lleol, gan rannu arferion da a helpu ei gilydd i wella. O ganlyniad, mae'r lleoliad wedi gwneud newidiadau buddiol i'w amgylchedd dysgu, sydd wedi annog lefelau cyfranogi ac ymgysylltu uwch mewn gweithgareddau, yn enwedig ymhlith y plant hynny lle mae anghenion ymddygiadol neu anghenion ychwanegol yn dod i'r amlwg.

Mae'r arweinwyr yn darparu amrywiaeth eang o gyfleoedd dysgu proffesiynol buddiol a gwerth chweil, yn enwedig mewn perthynas â diwygio ADY a'r Cwricwlwm i Gymru. Mae'r cyfleoedd buddiol hyn yn galluogi'r staff i ddatblygu eu gwybodaeth a gwella eu hymarfer. Mae'r arweinwyr yn darparu cyfleoedd buddiol i bob aelod o'r staff ddatblygu ei sgiliau Cymraeg. Pan fydd aelodau o'r staff yn cael hyfforddiant, byddant yn rhannu eu gwybodaeth, yn enwedig o ran geirfa newydd, yn effeithiol gydag eraill. O ganlyniad, mae sgiliau Cymraeg y plant yn datblygu'n dda yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad.

Mae'r arweinwyr yn rhoi prosesau diogel a phriodol ar waith ar gyfer recriwtio a dyrannu ymarferwyr. Maent yn sicrhau bod gan bob un o'r ymarferwyr ddisgrifiadau swydd cyfredol sy'n cynnwys gwybodaeth am eu rolau a'u cyfrifoldebau. Maent yn annog yr ymarferwyr i fyfyrio ar eu hymarfer drwy brosesau goruchwylio ac arfarnu. Mae'r arweinwyr yn effeithiol iawn wrth sicrhau bod cefnogaeth gadarn ar gael i'r staff o ran eu hiechyd a'u llesiant emosiynol a'u bod yn datblygu'n effeithiol yn eu rolau. Maent yn darparu amrywiaeth o becynnau buddiol i'r staff sy'n eu helpu i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi. O ganlyniad, mae'r arweinwyr yn hynod effeithiol wrth gadw staff ac wrth ddatblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u harbenigedd yn eu rolau. Mae gan yr arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer y lleoliad, sy'n cael ei rhannu a'i deall gan y staff, gan ganolbwyntio ar ddarparu amgylchedd magwrus a diogel i'r plant lle gallant ddatblygu a ffynnu.

Mae'r ymarferwyr wedi meithrin cydberthnasau agos â'r rhieni a gofalwyr. Mae'r rhieni yn cwblhau proffil am eu plentyn, ei hoff bethau, ei gas bethau a sut y gellir ei gefnogi orau wrth ddechrau yn y lleoliad. Mae hyn yn rhoi gwybodaeth werthfawr i'r arweinwyr sy'n eu helpu i gynllunio'r ffordd orau o ddiwallu anghenion plant unigol. Mae'r rhieni yn cael gwybodaeth briodol am gynnydd eu plentyn yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn a thrwy lwyfan ar-lein y lleoliad.

Mae'r lleoliad wedi'i leoli ar dir yr ysgol gynradd leol. Mae'r darparwyr wedi datblygu trefniadau pontio cryf a llwyddiannus. Mae hyn yn sicrhau bod y plant yn hyderus wrth symud ymlaen i'r cam nesaf ar eu taith ddysgu.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y lleoliad ac ar wefannau AGC ac Estyn (http://arolygiaethgofal.cymru) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn gwerthuso effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa pedwar pwynt:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac ymarfer parhaus cryf iawn |
| **Da** | Llawer o gryfderau, heb unrhyw feysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae'r cryfderau yn gwrthbwyso'r gwendidau ond mae angen gwneud gwelliannau |
| **Gwael** | Mae gwendidau pwysig yn gwrthbwyso'r cryfderau ac mae angen gwneud gwelliannau sylweddol |

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, ar yr amod y gwneir hynny'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a nodi teitl yr adroddiad.

Dyddiad cyhoeddi: 11/04/2024

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 11 Ebrill 2024